
Sut rydym yn defnyddio dy wybodaeth ...............




Weithiau, bydd angen i'r ysgol wybod pethau amdanat ti, fel dy enw, dy ben-blwydd a ble rwyt ti'n byw.

Rhaid i ni wybod hyn gan ei fod yn ein helpu i roi'r pethau y mae eu hangen arnat ti i wneud y gorau yn yr ysgol a sicrhau dy fod yn tyfu i fod yn iach ac yn heini.



Rydym yn ysgrifennu am dy ddatblygiad yn yr ysgol ar gyfrifiadur ac ar bapur. Dim ond rhai pobl sy'n cael gweld y pethau rydym wedi'u hysgrifennu amdanat ti.
Os rydym yn darganfod bod rhywun yn ceisio edrych ar yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu amdanat ti heb ganiatâd, gall fod mewn trafferth mawr.

Byddwn yn cadw'r hyn rydym wedi'i ysgrifennu amdanat am y cyfnod rydym i fod yn unig.



Weithiau, efallai bydd yn rhaid i ni rannu'r hyn rydym wedi'i ysgrifennu amdanat ti â phobl eraill.

Efallai bydd rhaid gwneud hyn oherwydd bod pethau wedi bod yn anodd i ti ac efallai bydd rhaid gofyn i bobl eraill dy helpu di.

Bydd y bobl rydym yn rhannu gwybodaeth â nhw yn ei chadw'n ddiogel fel mae'r ysgol yn ei wneud.



Os wyt ti am ofyn cwestiwn am yr hyn rydym yn ei ysgrifennu amdanat ti, cofia siarad â dy athro/athrawes.